“Gwyn eu byd y rhai sy’n dlodion yn yr ysbryd, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.”
(Mathew 5:3)

Dyma’r gosodiad cyntaf yn y Bregeth ar y Mynydd. Mae’r ‘Gwynfydau’ yn weddol adnabyddus i ni, ac yn ddisgrifiad o’r person sydd dan fendith Duw. Mae’r gosodiadau yn llawn paradocs, ac yn groes i ddisgrifiad y byd o hapusrwydd. Mae’r Arglwydd yn cychwyn gyda thlodi ysbrydol ac yn gorffen gydag erledigaeth o achos cyfiawnder. Gadewch i ni edrych ar y Gwynfyd cyntaf, felly.

Gwyn eu byd

Roedd y gair Groeg am wynfyd, sef ‘makarios’, yn cael ei ddefnyddio y tu allan i’r Beibl i ddisgrifio cyflwr y duwiau Groegaidd. Disgrifiwyd Cyprus hefyd fel ‘he makaria’, sef ‘Ynys y gwynfyd.’ Y rheswm am hyn oedd ei bod yn ynys mor hyfryd, mor gyfoethog, mor ffrwythlon. Doedd dim angen dod oddi arni i gael bywyd perffaith hapus. Roedd ganddi’r fath hinsawdd, y fath flodau, ffrwythau a choed, y fath fwynau ac adnoddau naturiol nes ei bod yn cynnwys popeth angenrheidiol i hapusrwydd cyflawn yng ngolwg dynion.

Mae Iesu’n dweud bod y gwynfyd yma yn Nuw, ac mae’n dweud wrthym sut berson sydd yn mwynhau’r gwynfyd yma nawr, ac yn mynd i’w fwynhau am byth.

Mae’n bwysig cofio, felly, fod Iesu’n sôn am lawenydd, am fwynhad, am fywyd gwell, am felysder, digonedd, llawnder ac amrywiaeth hyfryd o fendithion tragwyddol yn Nuw. Dyma pam daeth Crist i’n byd, er mwyn rhoi i ni y bywyd hwn.

Mae llawenydd y Beibl yn Nuw, yn yr Arglwydd. Mae’n wahanol i hapusrwydd, sydd yn tarddu o’r gair ‘hap’, sef lwc neu siawns. Nid yw’n dibynnu ar amgylchiadau ‘lwcus’ ond ar ein hagosrwydd at Dduw.

Tlodi ysbrydol

Ystyr y gair ‘tlawd’ yn yr adnod yma yw tlodi llwyr. Dyma ystyr y gair Groeg ‘ptōchos’ a hefyd y geiriau ‘ani’ neu ‘ebion’ yn Aramaeg a Hebraeg. Roedd y geiriau Hebraeg yn disgrifio person oedd, oherwydd nad oedd ganddo unrhyw adnoddau daearol, yn ymddiried yn Nuw yn unig. Dyma’r ystyr yn Salm 34:6 pan ddywed Dafydd: **“Y tlawd hwn a lefodd, a’r Arglwydd a’i clybu” (BWM).**

Mae dweud ei fod yn dlawd yn yr ysbryd yn golygu ei fod wedi dod i’w weld ei hunan yn gwbl amddifad yn ysbrydol gerbron Duw. Mae hyn oherwydd ei bechodau, oherwydd diffyg daioni gerbron Duw. Mae’n anobeithio am ei

hunan ac yn ceisio trugaredd Duw yng Nghrist. Dyma agwedd y casglwr trethi yn nameg Iesu: **"'O Dduw, bydd drugarog wrthyf fi, bechadur.'"** (Luc 18:13)

Rhaid i ddyn fod yn wag o'r hunan cyn cael ei lenwi gan ras Duw. Fel y creodd Duw y byd allan o ddim, gall greu creadur newydd, prydferth allan o berson sy'n ei weld ei hun yn ddim ger ei fron.

Rhaid i berson weld ei dlodi ysbrydol er mwyn gweld gwerth y Gwaredwr. Tlodi ysbrydol yw'r halen a'r pupur neu'r saws sy'n rhoi blas ar Grist i'r enaid, medd Thomas Watson.

"*Dyma gyfarfod hyfryd iawn,*
myfi yn llwm, a'r Iesu'n llawn;
myfi yn dlawd, heb feddu dim,
ac yntau'n rhoddi popeth im." (*Pantycelyn*)

Teyrnas nefoedd

Wrth sôn am deyrnas nefoedd, mae'r Arglwydd yn dweud bod y Cristion yn aelod o'r deyrnas, ac yn cael teyrnasu gyda Christ. Er y bydd hyn yn gyflawn yn y nefoedd, mae'n cael rhagflas ohono nawr hefyd.

Coron: Dywed Dafydd yn Salm 103:4 fod yr Arglwydd **"yn fy nghoroni â chariad a thrugaredd."** Trwy hyn, nid yw pechod i deyrnasu arno.
Cawn yr addewid hefyd o **"goron cyfiawnder", "coron gogoniant"** a **"choron y bywyd"** yn y nefoedd ar ôl dyfalbarhau yn y byd hwn.

Mantell: Mae gan bob brenin daearol ddillad a mentyll gwych. Mae'n wir am y Cristion hefyd: "**Llawenychaf yn fawr yn yr Arglwydd, gorfoleddaf yn fy Nuw; canys gwisgodd amdanaf wisgoedd iachawdwriaeth, taenodd fantell cyfiawnder drosof,".** (Es.61:10) Dyma ddarlun bendigedig o'r pechadur yn cael ei wisgo â chyfiawnder Iesu Grist i'w wneud yn dderbyniol gerbron y Tad nefol. Gallwn edrych ymlaen at y **"mentyll gwyn"** nefol hefyd, pan fyddwn yn hollol lân.

Teyrnwialen: Symbol o fawredd brenhinol Ahasferus oedd y deyrnwialen aur a estynnwyd at Esther. Symbol o fuddugoliaeth brenhinoedd cyfnod y Testament Newydd oedd palmwydd. Dyma arwyddocâd **"a phalmwydd yn eu dwylo"** wrth ddisgrifio tyrfa'r saint yn Dat. 7:9.

Gorsedd: Wrth eistedd ar ei orsedd, roedd brenin yn teyrnasu ac yn gweithredu awdurdod arbennig. Daw'r addewid yn glir i'r saint y byddant yn eistedd gyda Christ yn ei deyrnas dragwyddol: **"I'r sawl sy'n gorchfygu y rhof yr hawl i eistedd gyda mi ar fy ngorsedd, megis y gorchfygais innau ac yr eisteddais gyda'm Tad ar ei orsedd ef."** (Dat. 3:21)